**BWRDD CYNALIADWYEDD**

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mai 2012 (1:00pm)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Margaret Foster (Yn y Gadair)<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; K.P.Hughes; R.Ll.Hughes, T.Lloyd Hughes; B.Owen; G.O.Parry,MBE; Eric Roberts (fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio); Prif Weithredwr; Cyfarwyddwr Corfforaethol (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) Dirprwy Brif Weithredwr a Swyddog Adran 151 Dros Dro. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Archwilio) (Eitem 7)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Darparu Mewnol)<br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni<br>Cyfrifydd Dros Dro (RV) (Eitemau 5 a 6)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Mri Huw Lloyd Jones a John Roberts (SAC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr H.Eifion Jones, Tom Jones, G.W.Roberts,OBE, E.Schofield |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, Mick Giannasi a Gareth Jones;<br>Y Cynghorydd H.W.Thomas |

Draft

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w datgan

**2. YMDDIHEURIADAU**

Fel yr uchod

**3. MINUTES**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwella a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012.

**4. CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL - PERFFORMIAD CHWARTER 4**

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen Adroddiad ar Gerdyn Sgorio Perfformiad Chwarter 4 2011/12 ar gyfer Blaenoriaethau Llywodraethu Corfforaethol y Comisiynwyr, y Blaenoriaethau Gwella a Blaenoriaethau Strategol y Cyngor ynghyd a'i statws CAG.

Roedd rhai o'r Aelodau yn teimlo y dylai'r adroddiad son yn fwy cadarnhaol am adnewyddiad democrataidd oherwydd bod yr aelodau'n cydymffurfio'n llawn gyda'r canllawiau a osodwyd gan y Comisiynwyr.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

**5. RHEOLI RISGIAU CYLLIDEB 2012-13**

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Swyddog 151 Dros Dro - Bod adroddiad ar asesu risgiau'r gyllideb wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn ar 22 Mawrth 2012 ac i'r Pwyllgor Archwilio'r diwrnod canlynol. Asesiad cychwynnol oedd yr adroddiad o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig gyda chynllun arbedion 2012-13 a chyda'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Yn yr adroddiad, nodwyd nifer o feysydd lle'r oedd risgiau posibl a manylwyd ar y rhain ym Mharagraff 1.1 yr adroddiad hwn sef:-

- Integreiddiad
- Parciau a chyfleusterau awyr agored/Canolfan Hamdden Biwmares
- Rhesymoli'r gwasanaethau i oedolion
- Lleoliadau All-sirol i Blant
- Arbedion yn gysylltiedig â lleihad yn nifer y staff
- Buddsoddi yn y 3ydd sector
- Priffyrdd a rheoli gwastraff

Dilynwyd yr asesiad cychwynnol hwn drwy ymgynghori gyda'r meysydd gwasanaeth i nodi risgiau yng nghyllideb 2012-13 a sut y bwriedir lliniaru'r rhain. Cafwyd diweddariad.

Yn yr asesiad blaenorol, dygwyd sylw hefyd at nifer o brosiectau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy a oedd mewn perygl o beidio cael eu cyflawni yn eu cyfanrwydd a chafwyd crynodeb o'r rhain yn Atodiad 2 yr adroddiad. Ynghyd a rheini, roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi Darparu Gofal Cartref, Gofal Dydd i Bobl Hyn, Meini Prawf Cymhwyster Gwasanaethau Oedolion ac Ailfodelu'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu fel risg oherwydd lefel yr arbedion yr oedd rhaid wrthynt yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd mai cyfanswm y risgiau uchod oedd £247k a oedd yn cyfateb i 17% o RBFf 2012-13 ac a oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb y flwyddyn ariannol.

Roedd adolygiad o ganlyniadau dros dro 2011-12 wedi dwyn tynnu sylw at nifer o risgiau ailadroddus a gai sgil effaith ar y gyllideb 2012-13. (Cafwyd manylion am y rhain ym Mharagraff 4.1 i 4.4 yr adroddiad).

Yn Atodiad 4 yr adroddiad, dangoswyd y cyfan o'r risgiau oedd wedi eu nodi yn y gyllideb ac yr oedd eisoes wedi nodi camau lliniaru ar eu cyfer neu yr oedd yn rhaid ymchwilio ymhellach iddynt ynghylch sut i'w lliniaru. Yn y tabl, dangoswyd bod o bosib £688k o risgiau heb unrhyw gamau lliniaru wedi eu nodi a bod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau eu bod o fewn y gyllideb. Cafodd y prif feysydd risg lle nad oes unrhyw gamau lliniaru yn cael eu cymryd ar hyn o bryd neu wedi eu nodi neu bod camau lliniaru rhannol yn eu lle wedi eu crynhoi ym Mharagraff 5.1 yr adroddiad.

Roedd rhai o'r camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd i gydbwyso'r cyllidebau yn risgiau ynddynt eu hunain. Oni fyddai'r risgiau'n cael eu lliniaru, byddai'n ychwanegu at yr angen i gymryd camau pellach i sicrhau bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn dod o fewn terfynau'r gyllideb.

Roedd adroddiadau monitro chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2012-13 yn hanfodol oherwydd byddent yn rhoi'r olwg gyntaf ar sut y mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn y gyllideb ac unrhyw gamau gweithredu yr oedd angen eu cymryd i sicrhau bod y sefyllfa yn ei chyfanrwydd yn dod o fewn terfynau'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Draft

Byddai hefyd yn darparu darlun clir o sut yr oedd y risgiau uchod yn cael eu rheoli ac a oedd yna unrhyw risgiau pellach yng nghyllideb 2012-13.

Dygodd yr aelodau sylw at rai risgiau megis y contract prydau ysgol, yr angen brys am fand llydan cyflymder uchel ar yr Ynys i hwyluso adfywiad economaidd, yr angen i aelodau gael catalog cynhwysfawr o eiddo sydd ym mherchenogaeth y Cyngor ar gyfer cael gwared arnynt a'r angen i gwtogi nifer y staff sy'n cael eu hail-gyflogi ar ôl eu diswyddo.

*Roedd y Bwrdd Cynaliadwyedd:-*

- *yn nodi cynnwys yr adroddiad;*
- *yn cymeradwyo'r meysydd risgiau uchel a nodwyd yn yr adroddiad;*
- *yn cymeradwyo gweithredu cefnogaeth rheoli prosiect a chefnogaeth ariannol ar gyfer y meysydd risg uchel;*
- *yn dweud bod angen asesiad pellach o risgiau sy'n gysylltiedig â'r gyllideb a diweddariad ar ba mor dda y mae'r Awdurdod yn cyflawni yn erbyn y gyllideb wedi i'r sefyllfa ar ôl y chwarter monitro cyntaf ddod yn hysbys ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cynaliadwyedd.*

**6. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2012 – CYNNYDD HYD YMA**

Cyflwynwyd - cyflwyniad llafar gan y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar gynnydd a wnaed yn erbyn Adroddiad Gwella Blynyddol SAC ar gyfer 2012 yn achos Cyngor Sir Ynys Môn.

Pwrpas y sesiwn friffio heddiw oedd nodi pwysigrwydd ac arwyddocâd Adroddiad Gwella Blynyddol SAC am 2012 a darparu trosolwg o'r argymhellion ynghyd â chynigion ar gyfer gwelliant. Roedd y diweddariad hefyd yn rhoddi i aelodau'r Bwrdd syniad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella y dygwyd sylw atynt yn yr adroddiad. Roedd hefyd yn cadarnhau camau ar gyfer y dyfodol a'r amserlen ar gyfer adroddiadau gwaith pellach i'r Bwrdd yn amlinellu datblygiadau.

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad..*

**7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT**

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol - Bod rhaid i'r Cyngor hwn adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu a chynnwys datganiad ar yr adolygiad gydag unrhyw Ddatganiad Cyfrifon.

Ynghyd â chymryd i ystyriaeth sylwadau archwilwyr allanol ac asiantaethau archwilio eraill yn ystod 2011-12, roedd yr adolygiad yn un corfforaethol hefyd. Ynghlwm er gwybodaeth i'r adroddiad oedd drafft cyntaf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2011-12 ar y meysydd y dylid eu cynnwys yn yr adolygiad. Roedd y drafft yn seiliedig ar y flwyddyn ddiwethaf ac roedd eto i ddangos yn llawn y cynnydd a wnaed mewn nifer o feysydd ers hynny. Byddai nodi cynnydd, yn arbennig yn erbyn 10 maes gwella'r Comisiynwyr yn rhan bwysig o'r broses adolygu a byddai, gyda gobaith, yn cynhyrchu adroddiad mwy cadarnhaol na'r un yn y drafft cychwynnol sydd ynghlwm.

Drafft

*Nododd y Bwrdd Cynaliadwyedd gynnwys yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 2:40 p.m.

**Y COMISIYNYDD MARGARET FOSTER**
**CADEIRYDD**

Drafft